

y dinesydd

www.dinesydd.com

Hydref 2006


Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch

Rhif 312

Yn Hafal yng Nghaerdydd

Mae afiechyd meddyliol difrifol yn effeithio ar 1 % o'r boblogaeth, ar draws pob gwlad a diwylliant. Hafal yw'r elusen fwyaf yng Nghymru sy'n gweithio gyda phobl ag afiechyd meddwl difrifol a'u teuluoedd. Mae'n cynnig cymorth i weithio tuag at adferiad trwy roi gwybodaeth, cyngor, hyfforddiant ymarferol, cwmni a chyfeillgarwch i bob un sy'n profi unigrwydd a'r ofnau sy'n dod gyda salwch meddwl difrifol.

Castell Nedd yw Pencadlys Hafal, ac mae stondin Hafal yn gyfarwydd i ymwelwyr â'r Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn.



Peter Hain, AS, yn sgwrsio â John Abbott o Hafal yn yr Eisteddfod eleni

Ond mae gan y gymdeithas swyddfeydd, canghennau a phrosiectau ymhob rhan o Gymru, gan gynnwys Caerdydd, wrth gwrs. Mae grŵp o aelodau Hafal yn cwrdd am 7.00 yr hwyr ar yr ail nos Fawrth ymhob mis yng nghanolfan Tŷ Canna, ger Chapter yn Nhreganna. Cawn gyfle yno i rannu profiad ac i wrando ar siaradwyr gwadd sydd ag arbenigedd proffesiynol yn y maes. Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref y 10fed ac mae croeso i chi ymuno â ni. Os ydych yn poeni am eich sefyllfa eich hun, neu am gyflwr meddwl un annwyl i chi, cewch gyngor ymarferol a phroffesiynol ynglŷn â hynny trwy ffonio Lynda Wollard neu Junaid Iqbal ar 029 20 565959, neu, i drafod pethau trwy'r Gymraeg, ffoniwch 01792 816600 i siarad gyda Liz Griffiths neu Nicola Thoams. Mae cyhoeddiadau Hafal hefyd ar gael yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg.

Hefyd, mae gan gangen Hafal yng Nghaerdydd swyddfeydd a chynllun garddio yn yr Ysgubor Fawr ger yr Amgueddfa Werin. Braff yw'r perthynas agos a'r cydweithio cyson rhwng staff Hafal a staff yr Amgueddfa.

Parhad ar dudalen 2

Helpu yng Ngwlad Pwyl



Ar ben y rhestr

Llongyfarchiadau i ysgolion gyfun Plasmawr a Glantaf ddaeth yn ail a thrydydd yng Nghymru yn rhestr y Daily Telegraph o'r ysgolion gorau yn yr arholiadau safon Uwch eleni.

Eisteddfod Caerdydd 2008

Mae angen eich help i gynnal yr Eisteddfod arbennig hon ac mae'r gweithgareddau wedi dechrau yn barod. Cewch wybodaeth ar dudalen 4 am ddau ddydd Sadwrn arbennig ym mis Hydref a Thachwedd i ffurfio Pwyllgorau Pwnc yr Eisteddfod fydd yn llunio'r Rhestr Testunau. Hefyd mae'r pwyllgorau apêl leol yn cynnal nifer o weithgareddau diddorol a hwyliog fydd yn falch i gael eich cefnogaeth. Rhagor o wybodaeth ar <http://eisteddfod.caerdydd.org>

Noddir y rhifyn hwn o'r Dinesydd gan Dr Elin Jones, Dirprwy Gadeirydd Hafal

Cymdeithas Hafal

O hyd drwy'n bywyd di-baid, er ein hofn
O'r nos sy'n y llygaid,
Yr un yw'r galon o raid,
Yr un mor fawr yw'r enaid.

Ceri Wyn Jones, Tudur Dylan Jones
ac Emyr Davies

Criw taith yr Urdd o ysgolion Glantaf, Y Fro, Plasmawr, Gwynllyw, Ystalyfera a Rhydywaun

Cawsom ein cyffwrdd â'r profiad anhygoel o wneud gwaith gwirfoddol ar daith yr Urdd i wlad Pwyl ym mis Awst 2006.

Cyrhaeddodd y cartref plant cyntaf ar nos Sul i groeso cynnes, ac roeddem ni'n drist i orfod gadael ar ôl y diwrnod. Fe lwythom y cartref gydag anrhegion di-ri ar gyfer y plant a chymerwn ni'r amser i ddawnsio, joio a chwarae gemau gyda nhw. Roedd nifer o ddagrau wrth i ni adael y diwrnod canlynol, ond roedd hi'n dda i wybod bod mwy o gymorth yn mynd i gael ei ddarparu.

Roedd yr ail gartref yr un mor emosiynol i'w weld. Cawsom groeso arbennig o gynnes unwaith eto, ac roedd yn rhaid i nifer ohonom fynd i'm hystafelloedd i grio ar ôl derbyn anrhegion anghredadwy oddi wrth blant oedd yn cael dim.

Aethom i IKEA er mwyn prynu eitemau addas ar gyfer y cartref a dechreuom ar adnewyddu ystafell i bump o ferched. ! Erbyn i ni orffen yr ystafell, roedd pob un ohonon ni yn genfigennus o'r plant amddifad a fyddai'n cael yr ystafell.

Gwobr fwyaf yr wythnos oedd gweld eu hwynebau wrth iddynt weld yr ystafell orffenedig, ac wedi i'r bechgyn gweld y Playstation, y teledu a'r stereo newydd! Dyna oedd ystyr hapusrwydd, a dyna oedd ein rheswm dros fynd i Wlad Pwyl. Rwy'n argyhoeddedig na fyddaf i byth yn anghofio profiad a gawsom yng Ngwlad Pwyl, na'r plant a chwifiodd hwyl fawr i ni mor frwdfrydig.

Bethan Rowe Blwyddyn 13
Ysgol Gyfun Bro Morgannwg

(Rhagor ar dudalen 12.)

Y Dinesydd

www.dinesydd.com

Golygydd y rhifyn hwn:
Dr Elin Jones

Golygydd y rhifyn nesaf:
Hywel Jones

Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Tachwedd 2006 erbyn 27 Hydref at:
Hywel Jones, 4 Heol Heath Halt,
Y Mynydd Bychan, Caerdydd CF23 5QF ar
(e-bost: hywel.jones4@ntlworld.com
ffôn: 029-20211855)

neu at Gadeirydd Pwyllgor Y Dinesydd:
Peter Gillard, Tŷ Llwyd, Drope Rd., Sain
Siorsys, Bro Morgannwg CF5 6EP
(e-bost: pagillard@yahoo.co.uk;
ffôn: 01446-760007).

MANYLION CYSYLLTU Calendr y Dinesydd

Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr
Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ
(JamesEW@caerdydd.ac.uk; 029-2062-8754)

Hysbysebion

Siân Lewis, Menter Caerdydd, Tŷ Avocet, 88
Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd CF14
2FG (sian@dinesydd.com; 029-2056-5658)

Derbyn a dosbarthu copïau

Ceri Morgan, 24 Cwm Gwynlais,
Tongwynlais, Caerdydd CF15 7HU
(ceri33@btopenworld.com; 07774-816-209)

Rhoddion a thaliadau

Trysorydd y Dinesydd, d/o Menter Caerdydd,
Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf,
Caerdydd CF14 2FG

Noddi rhifynnau ac ymholiadau cyffredinol

Peter Gillard, Tŷ Llwyd, Drope Rd., Sain
Siorsys, Bro Morgannwg CF5 6EP
(pagillard@yahoo.co.uk; 01446-760007).

Cyhoeddir Y Dinesydd gan
Bwyllgor Y Dinesydd.

Fe'i cysodir gan gweHendre
a'i argraffu gan

Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

Parhad o dudalen 1

Aelodau a chefnogwyr Hafal yn y diwrnod chwaraeon



Bu Fred Dymott a'i gydweithwyr yn y cynllun garddio'n gweithio'n ddyfal i adfer hen erddi'r tŷ ac i ddatblygu canolfan arddio lwyddiannus iawn. Galwch heibio y tro nesaf y byddwch yn ymweld â'r Amgueddfa i weld beth sydd ar gael i'w brynu yng Nghanolfan Arddio Hafal – neu i dderbyn cyngor Fred yn rhad ac am ddim!

Mae Hafal hefyd yn ymgyrchu'n gyson dros bobl â salwch meddyliol difrifol a'u teuluoedd, ac yn pryderu am gyflwr y gwasanaethau sydd ar gael i ni yn y maes hwn. Hydref y 10fed yw Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd eleni, ac yn ystod y diwrnod hwnnw bydd rhai o aelodau a staff Hafal yn cwrdd â Dr Brian Gibbons, yn y Senedd, i bwysu am weithredu'r targedau iechyd meddwl a osodwyd yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol y llynedd, ac i lansio taflen a menter newydd a noddwyd gan Comic Relief. Gwylwch y cyfryngau ar y diwrnod am fwy o fanylion!

Mae tipyn o sbort i gael wrth ymaelodi â Hafal hefyd. Daeth cannoedd o bobl o bob cwr o Gymru at ei gilydd yn ddiweddar ar gyfer diwrnod chwaraeon amrywiol iawn, gan gynnwys Tai Chi, subuteo dynol, aerobeg, taflu'r weli a dringo mynydd. Efallai y byddwch yn adnabod un o leiaf o gefnogwyr Hafal yn y tîm!

Gwobrwyo Cynlluniau Iaith

Hyfryd yw gweld cynifer o sefydliadau masnachol a gwirfoddol yn rhoi ei phriod le i'r Gymraeg – ac yn cael eu gwobrwyo am wneud hynny. Yn ddiweddar cafodd Gwasanaethau Cwsmeriaid Cymraeg Banc Barclays eu gwobrwyo fel 'Llwyddiant Cymunedol y Flwyddyn' – gwobr Cyfartalwch ac Amrywiaeth mewn seremoni yng Ngwesty'r Park Plaza, Caerdydd, a chyflwynwyd y wobwr gan Shan Cothi. Mae'r tîm yn darparu gwasanaeth Cymraeg yn unig i'w cwsmeriaid, ac wedi gweld y galwadau'n cynyddu.

Mae datblygu gwasanaeth yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg yn holl bwysig hefyd i Hafal, a dderbyniodd wobwr gyntaf yn adran Cyrff Gwirfoddol Gwobrau'r Iaith Gymraeg mewn Gofal Iechyd 2006 am eu cyhoeddiadau yn y Gymraeg. Derbyniwyd y wobwr ar ran Hafal gan Nicola Thomas, Ysgrifennydd Cwmni Hafal, sy'n Gymraes o dras Indiaidd, wedi ei magu yng Nghastell Newydd Emlyn ac yn siarad Cymraeg hyfryd y fro honno. Swynwyd y gynulleidfa yn Neuadd y Ddinas yng Nghaerdydd gan ei gwisg hardd hefyd!



Nicola Thomas a Clive Wolfendale a gyflwynodd y wobwr

Pob clod i'r enillwyr hyn – ond os segurddod yw clod y cledd, gwir glod y cynlluniau hyn fydd y defnydd a wneir ohonyn nhw. Gadewch i ni Gymry Cymraeg lawenhau yn y statws cynyddol a roir i'n hiaith, a gofalu ein bod yn gwneud y defnydd helaethaf bosibl o'r gwasanaethau sydd ar gael trwy'r Gymraeg!

Bryisia cariad. Mae
mami eisiau mynd i
gyflwyno MASTERMIND.



YSGOL GYFUN GLANTAF

Ymweliad yr Adran Ddaeryddiaeth â Sorrento

Mis Mehefin, mis poetha'r haf, a chredwch chi fi roedd yr Eidal ar dân! + 35°C! Arhosom ni mewn gwesty cyfforddus a chyfeillgar yn y ddinas Sorrento. Ei'n gweithgareddau ni am yr wythnos oedd:

Pompeii

Prin yr oeddwn yn gallu credu fy mod yn cerdded ar hyd yr un strydoedd, ar yr un cerrig a wnaeth trigolion Pompeii bron i ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Wrth i ni fynd o gwmpas eglurodd ei'n tywys (gydag acen gref Eidalaid) am fywyd trigolion Pompeii.

Llosgfynyddoedd Vesuvius a Solfatara

Ymdrech mawr oedd dringo'r llethrau serth a throellog i fyny i grater y llosgfynydd enwog Vesuvius. Anodd oedd credu bod y llosgfynydd ddwywaith y maint presennol pan echdorrod yn ôl yn 79 O.C. Mae maint a siâp y llosgfynydd yn newid gyda phob echdoriad.

Arfordir yr Amalfi

Gyda'n calonnau yn ein gyddfau, aeth gyrrwr y bws â ni am daith o gwmpas yr arfordir gogoneddus yma. Roedd y ffyrdd yn droellog ac yn serth, â'r môr yn edrych yn bell islaw. Roedd yr olygfa yn wrth ei weld ac roedd yn werth y daith i fwynhau'r hufen iâ blasus yn y farchnad.

Amgueddfa Naples

Mae'r amgueddfa yn Naples yn adeilad hynod brydferth i mewn ac allan. Gwasgarir cerfluniau o farmor drud ar hyd ei choriariau a gerddi. Yn y neuadd gyntaf gwelir murlun anhygoel ar nenfwd yr ystafell, gorwedd ar y llawr a syllu mewn edmygedd ar y campwaith uwch ein pennau. Yn y neuadd arall roedd model anferth o ddinas Pompeii.

Ynys Capri

Ynys hardd ydy ynys Capri a thraeth bendigedig, does dim syndod felly ei fod yn ffynnu ar dwristiaeth. Teithiom ni yno ar fferi a threulio'r dydd yn crwydro'r ynys, nofio yn y môr clir ac yn mwynhau'r olygfa.



Y Theatr, Pompeii

Golffwraig Addawol

Mae Rachel Lewis o flwyddyn 9 yn dangos cryn addewid ar y cwrs golff. Mae wedi ennill lle yn nhim ieuenticid Sir Caerdydd ac yn ystod yr haf enillodd bencampwriaeth Cymru i ferched o dan 14. Mae eisoes wedi llwyddo i dyllu'r bel ag un ergyd felly mae'n sicr bod iddi ddyfodol disglair iawn.

Taith i Peru



Mae'n anhygoel i feddwl wrth edrych yn ôl ar ein mis yn Peru, faint o brofiadau anghredadwy a llefydd newydd llwyddom ni i wasgu mewn i amser mor gyfyng.

Wedi deunaw mis o waith paratoi a chasglu'r ceiniogau, dyma'r tri ar ddeg ohonom yn hedfan dros yr Iwerydd i ddechrau'r antur gydag wythnos yn aros mewn cabannau pren heb drydan yng nghanol goedwigoedd glaw yr Amason - y Tampobata Lodge. Dyma un o brif rannau'r alltaith, pryd roeddem ni'n gobeithio adeiladu pont pren (ynghyd â grŵp arall, o Gaint), a oedd yn angenrheidiol i'r bobl leol. Fe ddechreuodd y gwaith caled bron yn syth, ac ar ôl tri diwrnod hir o symud boneyffion, hoelio pren a chwysu parhaol, roedd y bont wedi ei orffen! Llwyddodd trideg o bobl i gamu ar ein pont heb iddi ddymchwel - llwyddiant a gyfiawnhaodd yr holl waith caled! Nid oeddem wedi profi unrhywbeth mor anhygoel o'r blaen. Ond roedd hi nawr yn amser i ymlacio, ac felly ymlaen a ni dros ein pont a thrwy'r jwngl i dreulio noson yn cysgu ar lwyfan yng nghanol nunlle, ac yn nofio mewn llyn cyfagos (a ddarganfuwyd wedyn iddi fod yn gartref i Caiman 3m o hyd, ac i lwyth o biranhas!!).

O hedfan i gerdded wedyn, â dechrau'n trec i'r dadfeilion Incaidd yn Ollantaytambo - taith ni fyddwn ni wedi ei gorffen heb gymorth yr arweinyddion Santiago a Carlos (ac wrth gwrs y 5 llama a buodd yn cario'r bagiau a'r pebyll!). Yn anffodus, roedd salwch ymhlith y grŵp, a bu rhaid i dri aelod o'r grŵp ddychwelyd i lawr y mynydd ar ôl y noson gyntaf, ond parha i'r brig bu rhaid i'r gweddill ohonom. Roedd hi'n her i bawb ond golyga hyn bod y llwyddiant a deimlwyd gan bob aelod o'r grŵp yn fwy wedi i ni gyrraedd yr uchafbwynt - 4578 metr!

Gyda'r trec ar ben, mae'r grŵp i gyd yn ailuno yn Cuzco i ddechrau ymlacio! Yn rhan olaf yr alltaith roedd ymweliadau ag ynysoedd Uros a Taquila, ar lyn Titicaca, ble gwelsom ddawns draddodiadol, ac amgueddfa yn Arequipa, ble roedd cyrff rhewedig plant a aberthwyd i dduwiau Incaidd, teithio o amgylch ynysoedd Ballestas, a Pharc cenedlaethol Paracas yn agos i Puno. Yn nôl i Lima wedyn, am un noson arall o fwynhau, cyn i ni hedfan nôl i Gymru, gan stopio ar y ffordd am ddydd yn Efrog Newydd.

Ond fel popeth da, roedd yn rhaid i'r daith ddod i ben, ac roedd hi'n amser i ddweud

Ysgol Gyfun Bro Morgannwg

Llwyddiant yn yr Eisteddfod

Bu wythnos Eisteddfod Genedlaethol Abertawe a'r Cylch ym mis Awst yn un llwyddiannus iawn i nifer o'n disgyblion. Cafodd Greta Isaac, sydd newydd ymuno â blwyddyn 7, drydedd wobwr yn yr Alaw Werin dan 12.

Mae Martha Holeyman o flwyddyn 10 yn dangos tipyn o addewid fel telynores, a chafodd y drydedd wobwr ar yr Unawd Telyn 12-16. Roedd Martha hefyd yn aelod o grŵp Telynau Tywi Taf a gafodd y drydedd wobwr yn y gystadleuaeth ar gyfer grŵp offerynnol, cystadleuaeth a oedd ar agor i oedolion hefyd. Tipyn o gamp yn wir.

Un o uchafbwyntiau'r wythnos oedd gweld dwy chwaer o'r ysgol yn cystadlu yn erbyn ei gilydd yn yr Unawd Merched 12-16. Roedd hi'n dipyn o job i'r beirniaid ddewis rhwng Lisa Williams o flwyddyn 8 ac Ellen Williams o flwyddyn 11, ond yn y diwedd Lisa aeth â'r wobwr, gydag Ellen yn dynn ar ei sodlau, gan gipio'r ail wobwr.

Daeth criw o'n disgyblion ynghyd am y tro cyntaf i gystadlu yn y Parti Alaw Werin dan 21 oed. Mewn cystadleuaeth agos daeth y merched yn ail. Llonyfarchiadau iddyn nhw i gyd.

hwyl fawr wrth y ffrindiau oedd wedi gwneud y mis mor wych. Y cwestiwn nawr yw, pryd mae'r daith nesaf?!



Buddugwy'r y Clwb Garddio

Ym mis Mai 2005, enillodd dwy aelod o glwb garddio Glantaf wobwr am gynllunio gwely flodau, mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan gyngor Caerdydd 'Cardiff in Bloom'. Eleni fe'i blannwyd! Dyma Seren Fenhoullet a Bethan Grosvenor yn ymfalchïo yn eu gwaith, sydd yno i'w weld o hyd yn Rhymney Hill gardens. Diolchiadau arbenigwr i Mr David Hutchings, prif weithredwr garddio, am ei gyngor a'i gwmni drwy'r bore hyfryd. Llonyfarchiadau mawr iddynt.

Y Sioe Gerdd 'Branwen'

Unwaith eto eleni, mae'r ysgol yn llwyfannu sioe gerdd arall! Mae'r cast o dros 100 o ddisgyblion blynyddoedd 8-13 ac athrawon, wedi bod wrthi ers rhai wythnosau bellach yn ymarfer! Perffromir y sioe, sy'n adrodd hanes chwedl Branwen o'r Mabinogi, o ddydd Llun 13eg o Dachwedd i nos Iau 16eg o Dachwedd. Tocynnau ar gael o'r swyddfa.

Eisteddfod

GENEDLAETHOL CYMRU

Caerdydd 2008

Pwyllgorau Testunau

Wrth i Eisteddfod Abertawe a'r Cylch ddechrau pylu yn y cof daeth yn amser symud ymlaen gyda threfniadau Eisteddfod Genedlaethol 2008. Mae'r Pwyllgor Llywio wedi bod yn weithredol ers peth amser ond yn awr mae angen ffurfio'r pwyllgorau testunau a, maes o law, gweddill y pwyllgorau.

Yn dilyn arbrawf llwyddiannus ar gyfer Eisteddfod 2007, bwriedir parhau gyda'r drefn newydd o weithredu trwy wneud y cyfan mewn sesiynau ar ddyddiau Sadwrn.

Byddwn yn cychwyn ar y gwaith o sefydlu'r pwyllgorau pwnc sef Alawon Gwerin, Celfyddydau Gweledol, Cerdd Dant, Cerdd, Dawns, Drama, Dysgwyr, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Llefaru, a Llenyddiaeth yn Neuadd Ysgol Glantaf, Caerdydd, ddydd Sadwrn 14 Hydref am 10:30 y bore a hoffwn wahodd PAWB sy'n dymuno gweld llwyddiant yr Eisteddfod yn 2008 i'r cyfarfod yma. Awn ati nid yn unig i enwebu swyddogion y pwyllgorau testunau, ac fe fyddwn yn ddiolchgar petai pawb yn ystyried enwau addas ar gyfer y swyddi cyn y cyfarfod, ond hefyd i gychwyn ar y gwaith o ddifrif. Bydd gwbyodaeth am destunau'r gorffennol ar gael yn ogystal â llawer o fanylion eraill. Fodd bynnag er mwyn i'r holl beth weithio, mae eisiau gwneud ychydig o waith cartref ymlaen llaw a dod yno gyda syniadau ac o bosib, copiâu, gyda chi ar y diwrnod.

Yr ail gam fydd cynnal diwrnod pellach o gyfarfodydd ddydd Sadwrn 18 Tachwedd am 10:00 yn Ysgol Glantaf er mwyn parhau a chwblhau, gobeithio, y gwaith o lunio'r Rhestr Testunau. Mae hynny yn rhoi rhyw fis i bawb i gael hyd i destunau addas. Y trydydd cam fydd cydgyfarfod gydag aelodau Panelau Canolog yr Eisteddfod yng Nghaerdydd ddydd Sadwrn 20 Ionawr 2007 er mwyn i bawb gytuno yn derfynol ar y ffrâm destunau. Mae hon yn ffordd newydd o weithredu a dyma fydd y patrwm o hyn ymlaen. Gall trigolion Caerdydd ymfalchïo yn y ffaith iddynt fod ar flaen y gad unwaith eto!

Edrychwn ymlaen at weld Neuadd Glantaf yn llawn ddydd Sadwrn 14 Hydref er mwyn rhoi cychwyn go iawn i Eisteddfod 2008. Os gwyddoch am unrhyw un fyddai â diddordeb, a fydddech gystal â'u perswadio neu ddod â hwy gyda chi?

Cinio Mawreddog

Erbyn hyn mae'r gwaith o godi arian ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd wedi cychwyn gyda nifer o Bwyllgorau Apêl wedi sefydlu ar draws y dalgylch ac ar nos Sadwrn, Hydref 21ain mi fydd y pwyllgor Llywio canolog yn trefnu cinio mawreddog yn y Gyfnewydfa Lo ym Mae Caerdydd. Yn ystod y noson, cewch wledda yn nwylo 'Bant a La Carte', mentro mewn raffl ac

Ulisse yn baglu dros y Gymraeg a'r cathod

Llongyfarchiadau i Gwmni Opera Cenedlaethol Cymru sy'n dathlu ei ben-blwydd yn 60 eleni. Mae hefyd wedi hen ymgartrefu yng Nghanolfan y Mileniwm erbyn hyn, ac mae cynrychiadau'r Cwmni yn derbyn canmoliaeth uchel ledled y byd.

Ar Fedi'r 16 cynhaliodd y cwmni ei berfformiad cyntaf o opera Monteverdi *Il Ritorno di Ulisse* a berfformiwyd am y tro cyntaf erioed yn ôl yn 1640. Cymysg oedd ymateb y beirniaid i'r cynhyrchiad. Roedd llawer o gannol ar y canu, ac ar berfformiadau'r prif gymeriadau, yn enwedig Ulisse ei hun (Paul Nilon) a Penelope ei wraig ffyddlon (Sara Fulgoni). Roedd y gerddorfa yn cynnwys nifer o offerynnau o gyfnod Monteverdi, ac roedd y gerddoriaeth o'r herwydd yn debycach i'r hyn y byddai Monteverdi ei hun wedi ei chlywed ar noson y perfformiad cyntaf erioed, tair canrif yn ôl - profiad gwfreiddiol, yn wir, ac roedd hwn eto yn destun clod yn y cyfryngau.

Onid roedd natur swreal y llwyfannu yn destun sbort i rai o'r beirniaid - aeth un mor bell â'i gymharu â sioeau Benny Hill gynt. Roedd yn bosibl i ddeall pam y portreadir y duwiau Groegaidd fel plant creulon ac anghyfrifol, ond pam roedd y bugail yn arwain praid o gathod, ac yn cario cath ar ei ysgwyddau? Beth oedd y neges i fod?

I Gymry Cymraeg yn y gynulleidfa, ychwanegwyd at natur swreal y llwyfannu hefyd gan yr anghysondeb rhwng yr uwchdeitlau Cymraeg a'r rhai Saesneg. Mae'r Cwmni Opera Cenedlaethol i'w gannol am roi'r cyfle i ni ddilyn yr opera yn y naill iaith neu'r llall (neu yn yr Eidalieg wreiddiol, wrth gwrs!) ond tybed pa mor fwriadol oedd yr amrywiaeth ystyr yn yr is-deitlau? Ai am harddwch Penelope oedd un o'r cymeriadau yn canu (yn ôl y Gymraeg) neu am ei 'loneliness' - yn ôl y Saesneg? Roedd cwestiynau tebyg (a'r myfyrion am is-destun y cathod) yn debyg o ychwanegu at ein dryswch. Cwestiwn arall oedd yn poeni'r aelod hwn o'r gynulleidfa oedd y cyfeiriadau cyson at 'gwrthwynebwyr' Penelope yn y Gymraeg bob tro roedd cyfeiriad at ei 'suitsors' yn Saesneg. Roedd y canlynwyr yn gwrthwynebu Ulisse, wrth gwrs, ond yn honni eu bod yn caru, nid yn gwrthwynebu, Penelope!

Gobeithio y bydd pennaeth newydd y Cwmni, Geraint Talfan Davies, yn sicrhau nid yn unig parhad yr arfer o gael uwchdeitlau yn y Gymraeg, ond eu cywirdeb hefyd. Mae'n destun balchder i ni fod gyda ni Gwmni Opera rhyngwladol ei fri a chartref mor urddasol iddo yng Nghanolfan y Mileniwm: hoffwn ymfalchïo hefyd yn safon y Gymraeg a arddelir gan un o'n prif sefydliadau cenedlaethol yng Nghymru!

ocsiwn, a dawnsio hyd oriau mân y bore i sain Jazz a disco. Mae'r tocynnau yn £30 y pen, a gallwch archebu bwrdd i 10 neu docynnau unigol drwy gysylltu â Swyddfa'r Eisteddfod ar 02920 763 777.



Annwyl Gyfeillion,

Mae gwaith Achub y Plant o amgylch y byd yn gyfarwydd i nifer ohonoch; ond ni fyddai'n bosib i ni barhau â'n gweithgareddau oni bai am ymroddiad a chefnogaeth ein gwirfoddolwyr. Yma yng Nghymru mae cannoedd o bobl eisoes yn rhoi o'u hamser, yn codi arian, yn ymgyrchu a llobio, yn gweithio yn ein siopau, ac yn hybu pobl ifanc i gyfrannu tuag at ein gwaith.

Eleni am y tro cyntaf rydym wedi trefnu digwyddiad arbennig ar gyfer pobl fyddai'n hoffi clywed mwy am y cyfleoedd i gyfrannu at waith Achub y Plant. Bydd yr Arddangosfa yn cael ei chynnal yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, yn ystod y dydd ar ddydd Mercher Hydref 18fed, gyda sesiynau arbennig ar gyfer cefnogwyr newydd.

Os hoffech chi wybod mwy, rhowch ganiad i'r fim yn ein swyddfa yng Nghaerdydd ar 02920 345224, neu edrychwch ar www.savethechildren.org.uk/showcase.

Wyn Mears

Cadeirydd, Cyngor Cymru Achub y Plant

Llais i'r bobl!



Mae Gŵyl Ffilm Caerdydd 2006 wedi cyhoeddi eu bod am ail-gylwyno'r wobwr boblogaidd Gwobr y Gynulleidfa. Mae'r wobwr yn cynnig y cyfle i bobl sydd yn ymweld â'r Wyl i bleidleisio am eu hoff ffilm. Mae'r Wyl yn cael ei gynnal yn y brifddinas rhwng 8-18 o fis Tachwedd.

Noddir y wobwr eleni gan Sequence, cwmni cyfathrebu digidol o Gaerdydd. Fe fydd gofyn i'r cyhoedd bleidleisio am eu hoff ffilm naill ai ar-lein, ar wefan rhyngweithiol yr Wyl Ffilm, www.cardiffilmfestival.co.uk neu drwy neges tecst.

CAMERATA WALES YN NEUADD DEWI SANT

Ar ôl siom gohirio'r cyngerdd fis Ebrill diwethaf oherwydd y posibilrwydd o streic gan weithwyr y cyngor, dyma ni'n edrych ymlaen unwaith eto at glywed y gerddorfa siambr afieithus a chyffrous yma fydd yn ymddangos yn Neuadd Dewi Sant ar nos Fercher Hydref 11eg. Y rhaglen y tro hwn yn cynnwys John Lill yn chwarae Consierto i'r Piano Rhif 5 gan Beethoven a'r Symffoni Eidalaid gan Mendelssohn. Ffurfiwyd y gerddorfa gan Owain Arwel Hughes OBE llynedd ar ôl iddo ddod yn ymwybodol fod llawer o offerynwyr penigamp o dras Cymreig yng ngwahanol gerddorffeydd Llundain. Mae'r tocynnau ar werth nawr. Dylai fod yn noson i'w chofio.

Pasport

Tramorwraig rhugl ei Chymraeg sy'n cael ei holi fis yma. O wlad y tango a'r asado (barbeciw Archentaidd) y daw Geraldine Lublin de Brooks...

O le wyt ti'n dod yn wreiddiol?

Ces i fy ngeni a fy magu yn Buenos Aires, prifddinas yr Ariannin.

Ym mha ran o Gaerdydd wyt ti'n byw?

Yn Nhreganna.

Ers faint wyt ti'n byw yng Nghaerdydd?

Ers pedair blynedd a hanner bellach.

Beth fuest ti'n ei wneud cyn ac ar ôl symud yma?

Ces i fy addysgu yn Buenos Aires a graddiais fel cyfieithydd ym 1998. Wedyn treuliais beth amser yn Llundain tra bod fy ngŵr (Walter A. Brooks o Comodoro Rivadavia, Chubut; fy nghariad bryd hynny) yn gwneud ei gwrs Cymraeg cyntaf. Hwnnw oedd y tro cyntaf i mi ddod mewn cysylltiad â'r iaith, pan oedd Walter yn dilyn Cwrs Wlpan Llambod yn 1999. Symudon ni i Gaerdydd yn 2002 er mwyn iddo astudio mwy a gwneud gwaith ymchwil gyda'r Athro Robert Owen Jones ar ddisgynyddion y Cymry ym Mhatagonia. Gan nad o'n i'n deall gair o Gymraeg, dechreuais ddyysgu'r iaith yn syth ar ôl i mi gyrraedd Caerdydd, ym mis Ebrill 2002, a bues i'n mynychu cysysiol yng Nghanolfan Dysgu Cymraeg Prifysgol Caerdydd tan fis Mehefin 2004.

Dw i'n mwynhau byw yng Nghaerdydd, ond bues i'n ddigon ffodus yn ddiweddar i gael y gorau o'r ddau fyd. Achos gwaith fy ngŵr, ces i gyfle i dreulio tymhorau eitha hir ym Mhatagonia - heblaw am osgoi'r gaeaf yng Nghymru am ddwy flynedd yn olynol! Dyna pam dw i ddim yn edrych ymlaen at fis Tachwedd na mis Rhagfyr nesaf...

Beth wyt ti'n ei wneud erbyn hyn?

Ar hyn o bryd, dw i'n dechrau ar drydedd flywyddyn fy PhD. Ar ôl sefyll Arholiad Defnyddio'r Gymraeg Uwch - sef, Lefel A i Oedolion - ges i ysgoloriaeth i wneud doethuriaeth yn Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd, o dan gyfarwyddiad Dr Angharad Price, Dr Dylan Foster-Evans a'r Athro Colin Williams. Dw i wrthi yn ysgrifennu fy nhraethawd ymchwil, sydd yn trafod hunaniaeth disgynyddion y Cymry ym Mhatagonia ar sail pedwar hunangofiant a gyhoeddwyd yng Nghymru ac yn yr Ariannin yn ystod chwarter olaf yr ugeinfed ganrif. Yn y cyfamser, dw i wedi bod yn dysgu Sbaeneg i oedolion a gwneud ychydig o gyfieithu.

Pam wnest ti benderfynu dysgu Cymraeg?

Achos i mi gael digon o beidio â deall! Hyd yn oed pan oedden ni'n byw ym Muenos Aires, roedd fy ngŵr yn defnyddio'r Gymraeg wrth groesawu ymwelwyr o Gymru ac yn ymchwilio i hanes y Wladfa. Ro'n i'n gallu cyfathrebu yn Saesneg, ond d'on i ddim eisiau i bawb orfod newid iaith er fy mwyn i!

Ar ôl i ni benderfynu treulio amser yng Nghymru, es i ati i ddyysgu'r iaith o ddfiri achos fy mod i eisiau manteisio ar y cyfle o



fyw yn y wlad hon. Er nad oes llawer o Gymraeg yn y brifddinas, mae 'na ddigon o bobl sydd yn siarad yr hen iaith - siaradwyr iaith gyntaf a dysgwyr - ac mae'n bosibl defnyddio'r iaith yn rheolaidd.

Beth wyt ti'n hoffi ei wneud yn dy amser hamdden?

Dw i'n mwynhau gweld ffrindiau a mynd i'r sinema. Dyn ni'n ddigon ffodus i fyw'n agos at Ganolfan Chapter, sydd yn wych am ffilmiau o bedwar ban y byd. Mae'r caffi hefyd yn dda, ac mae'n un o'r llefydd prin ble mae'n bosibl cael coffi ar ôl 6 pm! Mae'n gyfuniad o sinema, theatr, caffi, tafarn ac oriel gelf, ac mae'r awyrgylch yn wych. Mae Chapter yn lleihau fy hiraeth am fywyd diwylliannol Buenos Aires.

Dw i wrth fy modd yn cerdded hefyd, pan ddaw'r cyfle. Mae Caerdydd yn agos at lefydd pert i fynd am dro, fel y Bannau Brycheiniog neu Lanilltud Fawr.

Beth wyt ti'n ei golli am yr Ariannin?

Dw i'n gweld eisiau ffrindiau, a'r teulu. Er fy mod i wedi llwyddo i gadw mewn cysylltiad, dw i'n colli rhannu'r pethau bach, y pethau pob dydd. Ond, erbyn meddwl, dw i'n colli fy ffrindiau o Gaerdydd pan dw i yn yr Ariannin!

Lle wyt ti'n hoffi mynd am wyliau?

Mae dewis un lle'n unig yn amhosibl i fi, gan fod cymaint o lefydd diddorol. Dw i ddim fel arfer yn mynd i rywle ble dw i wedi bod o'r blaen. Dw i'n dwlu ar ymweld â rhywle newydd, cerdded o gwmpas, blasu'r bwyd, clywed arogl y strydoedd... Ond fydda i ddim yn mwynhau 'gwyliu traeth' am fwy na thridiau os nad oes mwy o bethau i'w wneud na darllen a thorheulo.

Petaet yn cael miliwn o bunnoedd i'w wario ar Gaerdydd, beth fyddet ti'n ei wneud?

Wel, i ddechrau, byddwn i'n gwella gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus y ddinas (a'r wlad!) er mwyn annog pobl i adael eu ceir gartref. Buasai popeth yn haws tasai'r trenau a'r bysiau'n effeithiol ac yn gyfleus i fynd o gwmpas. Gyda'r sefyllfa fel y mae, mae pawb yn or-ddibynnol ar geir, a dw i'n tybio na fydd hynny'n gallu para am hir.

Un peth arall y byddwn i'n ei wneud yw neilltuo mwy o ffyrdd ar gyfer beicwyr. Dydy gyrrwyr ddim yn garedig a pharchus tuag at feicwyr bob tro, ac mae hynny'n eu digalonni nhw. Ar wahân i hynny, byddai rhaid codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynglŷn â materion 'gwyrd' fel ailgylchu, defnyddio

llai o blastig ac arbed adnoddau naturiol. Dylai'r awdurdodau flaenoriaethu'r amgylchedd bob tro, nid yn unig achos plant y dyfodol ond er ein mwyn ni ein hunain.

Lle wyt ti'n gweld dy hun mewn deng mlynedd?

Wel, am gwestiwn! Does gen i ddim clem ble bydda i. Chwe blynedd yn ôl, faswn i ddim wedi dychmygu baswn i wedi ymgartrefu yng Nghymru. Dw i'n gobeithio y bydda i'n hapus, yn rhannu fy mywyd â fy ngŵr, a gyda phlant o'r diwedd!

Gall artistiaid a phenseiri fyth fyw o dan yr un to?

Mae Caerdydd yn croesawu'r ail gynhadledd Urban Legacies o 5-6 Hydref 2006. Mae'r digwyddiad proffil uchel hwn yn denu rhai o weithwyr proffesiynol, cynllunwyr, artistiaid a phenseiri amlycaf adfywio dinesig i brifddinas Cymru i drafod y ffordd ymlaen mewn cynllunio dinesig. Lanswyd gwefan ddynodedig yn arbennig ar gyfer y gynhadledd sef (www.urbanlegacies.co.uk).

CÔR MEIBION TÂF

CYNHELIR
YMARFERION
WYTHNOSOL
YNG NGHAPEL
Y TABERNACL,
YR AIS
POB NOS SUL
AM 7.30 y.h.

CROESO I AELODAU NEWYDD

Am fwy o wybodaeth,
croeso i chi gysylltu â:

Tomos Morse
029 20623365;

Dafydd Roberts
07766 047009;

Rob Nicholls
07817 540660

Bwrlwm Rhiwbeina

Ffilm newydd y gŵr o Riwbeina yn y sinema

Dangosir y ffilm *Snow Cake* dan gyfarwyddyd Marc Evans, gynt o Riwbeina, yn y sinemau ar hyn o bryd. Llongyfarchiadau iddo fe ar ei gamp. Mae llawer o ganmol ar y ffilm. Y sêr yn y ffilm ydy Alan Rickman a Sigourney Weaver.

Darledwraig yn priodi

Cynhaliwyd priodas y ddarlledwraig Eleri Morgan, gynt o Riwbeina, a Nigel Thomas, gynt o ardal Llandysul, yng Nghapel Minny street ar y 15fed o Fedi. Bu'r neithior yng Nghastell Ffwlmon yn y Fro. Cafwyd eitemau gan Gôr Aelwyd Hamdden Caerdydd yn ystod y cofrestru ar ddiwedd y gwasanaeth a weinyddwyd gan y Parchedig Owain Llŷr Evans, gweinidog Minny Street. Yr organyddes oedd Eilonwy Jones. Pob hapusrwydd i'r deuddyn hyn.

Siaradwr gwadd yn cyfareddu

Ar ôl seibiant dros yr haf ail ddechreuodd Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina ar nos Lun y 18fed o Fedi pan ddaeth dros ddeugain o bobl ynghyd i wrando ar y siaradwr gwadd, sef Walter Ariel Brooks o Comodoro Rivadavia ym Mhatagonia yn adrodd hanes ei fywyd ac am ei ymdrechion i ddyddu'r Gymraeg. Ar hyn o bryd mae'n gweithio yn Adran y Gymraeg Prifysgol Caerdydd. Mwynhewyd y noson yn fawr.

Dychwelyd i'r Wladfa

Taith hwylus adre i Debora Vazquez o'r Gaiman sy wedi bod yn gwarchod plant teulu Cymraeg yn y ddinas am flwyddyn. Tra yma bu'n dilyn cwrs Cymraeg i oedolion ym Mhrifysgol Caerdydd. Cafodd radd A yn yr arholiadau terfynol, ac mae hi'n dychwelyd yn gwbl rugl ei Chymraeg. Llongyfarchiadau iddi a phob llwydd 'nôl yn y Wladfa.

Ymwelwyr eraill o'r Wladfa

Ar hyn o bryd mae Benito a Beatrice Jones y Laïman yn aros hefo'u merch Miriam Tilsley a'r teulu yn Rhiwbeina ac mae rhieni Walter Ariel Brooks Treganna draw yn aros hefo'u mab. Croeso cynnes iawn i'r pedwar i'n plith gan obeithio y cawn nhw amser wrth eu boddau yn yr Hen Wlad. Croeso hefyd i Patricia Ramos o Dir Halen Dyffryn Camwy sydd wedi bod ar gwrs Cymraeg Llanbedr ond sydd wedi aros am fis ychwanegol yng Nghaerdydd i ennill profiad yn Amgueddfa Sain Ffagan, Adran Gymraeg y Brifysgol ac Ysgol Gymraeg y Mynydd Bychan. Siwrnai dda iddi 'nôl i'r Wladfa.

Bore coffi llwyddiannus

Cynhaliwyd bore coffi yn nhŷ Wyn a Beryl Thomas, Llanisien, ar fore Mercher yr 20fed o Fedi i godi arian at gronfa leol Rhiwbeina/Llanisien ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a'r Cylch 2008. Codwyd dros £300.

Newyddion

Yr actor o Gaerdydd yn serenu

Mae'r actor Mathew Rhys wedi llwyddo yn yr Amerig i gael rhan amlwg yn y ddrama gyfres *Brothers and Sisters* hefo sêr fel Ally McBeal, Calista Flockhart, Sally Field a Rachel Griffiths. Pob lwc a llwydd iddo fe a'r ddrama gyfres!

Medal aur arall i Tanni

Does dim pall ar lwyddiant Dame Tanni Grey-Thompson gynt o Gaerdydd ym myd athletau gan iddi ennill medal aur arall mewn räs ym mhencampwriaeth Assen ym mis Medi. Llongyfarchiadau iddi.

Arlunydd mwyaf Cymru yn marw

Bu farw'r arlunydd enwog Syr John Kyffin Williams ar Ynys Môn ar y 1af o Fedi a bu ei angladd yn Eglwys Gadeiriol Bangor ar yr 11eg o Fedi. Ar hyn o bryd tan y 14eg o Hydref ceir arddangosfa o'i waith yn Oriel Albany yng Nghaerdydd ynghyd a cherfluniau gan David Williams-Ellis.

Ail apwyntiad i Geraint Talfan

Ar ôl iddo ymddiswyddo o fod yn Gadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru mae Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru wedi penodi Geraint Talfan Davies yn Gadeirydd eto am yr ail dro, sy'n siarad cyfrolau i'w boblogrwydd yn y byd celfyddydol yng Nghymru. Bu yn y swydd am y tro cyntaf rhwng 2000 a 2003, pan adawodd i fod yn Gadeirydd Cyngor y Celfyddydau yng Nghymru. Longyfarchiadau iddo fe a phob llwydd iddo.

Croeso 'nôl

Croeso 'nôl i Gymru o Brighton i Ana Wynn Roberts, merch Gruff ac Eifiona Roberts Aberhonddu. Mae hi wedi ymgartrefu yn ardal Treganna ac wedi cael swydd fel prif hyfforddwraig hefo sefydliad Thompson yn y ddinas. Bu'n athrawes Ffrangeg, Sbaeneg a Saesneg yn Brighton.

Marw cyn Gyfarwyddwr Addysg

Bu farw Alec MacKay y Barri, cyn Gyfarwyddwr Addysg Caerdydd ar y 21ain o Awst a bu'r angladd yn Amlsgfa Llangrallo ger Pen y Bont ar Ogwr ar y 29ain o Awst.

Llongyfarchiadau i

Rhys ap Trefor a Lisa Lewis yr Eglwys Newydd ar enedigaeth eu mab Tomos Lewis Rhys ar yr ail o Fedi. Mae'r bychan yn ŵyr i Illtyd a Mairwen Lewis Cyncoed a Trefor a Carolyn Jones Garndolbenmaen.

Penblwydd hapus

I John Howard Davies (Tŷ Clyd, Yr Eglwys Newydd) ar ei benblwydd yn 80 mlwydd oed, 1 Hydref 2006, oddi wrth Valmai. Hefyd llawer o gariad oddi wrth Helen, Huw, Becky a Jessica (Llwyn Coed, Llanilltud Faerdref).

Merched y Wawr Bro Radur

Braf oedd gweld cynifer wedi dod ynghyd ar gyfer noson agoriadol y tymor. Llywydd y noson oedd Rhiannon Evans, a groesawodd yr aelodau newydd, cyn cyfeirio at rai o ddigwyddiadau'r Haf. Roedd stonin gan y gangen yn ffair Tafwyl ym mis Mehefin, a chynhaliwyd Cinio Rhanbarth Merched y Wawr yng Nghlwb Golff Radur.

Aeth Rhiannon yn ei blaen i gyflwyno'r ferch ifanc a oedd yng ngofal y noson, sef Ruth Evans. Mae gan Ruth ddiddordeb mewn colur a harddwch, ac roedd hi'n pwysleisio pa mor bwysig yw gofalu am y croen. Dangosodd i ni bod gwahanol fathau o hufen ar gyfer y croen ar gael, yn ogystal â dewis eang o golur. Llwyddodd Ruth i'n difyrro gyda'i brwdfrydedd heintus a chafwyd noson hwyllog.

Yr Athro Glyn Evans Jones fydd yn sôn am ei atgofion am Fynydd Epynt ar Hydref 4ydd am 19.30 yn Ffestri Capel y Methodistiaid, Windsor Rd. Dewch i ymuno â ni. Cewch groeso cynnes.

LLWYDDIANT YR ADAR GLAS

Bu misoedd Awst a Medi yn rhai llwyddiannus iawn i dîm pêl-droed y briffddinas. O'r naw gêm a chwaraewyd yn ystod y ddeufis mi enillwyd chwech a dod yn gyfartal ddwywaith, ac 'roedd yr Adar Glas yn gyfforddus braf ar gopa tabl y Bencampwriaeth gydag ugain pwynt, tri yn fwy na Birmingham.

Llwyddwyd i sgorio nifer uchel o goliau yn ystod y ddeufis, sef deunaw mewn naw gêm, gyda'r prif sgoriwr, Michael Chopra, yn cyfrannu chwech. Mae ef yn un o nifer o chwaraewyr o safon uchel a ymunodd â Chlwb Caerdydd yn ystod yr haf, ac mae'r rheolwr, Dave Jones, yn cael y clod am brynu'n ddoeth a hynny gyda chyllideb eitha caeth.

Yn priodi cyn bo hir?

Wedi trefnu'r adloniant?
Naddo?

Felly,

Gwasanaethau 007

amdani !

DISGO DWYIEITHOG
ASIAN TWMPATH
SYSTEM SAIN I AREITHIAU
RIG GOLEUO I GRWPIAU BYW

Cysylltwch â Ceri ar

07774 816209 neu

029 20813812

ceri33@btopenworld.com

Ar gael dros Gymru benbaladr
a thu hwnt



www.mentercaerdydd.org
029 20565658

Gweithgareddau i Ddysgwyr

Bore Coffi

Cofiwch am fore coffi Ddysgwyr y Fenter-cyfle i sgwrsio ac ymarfer eich Cymraeg mewn awyrgylch hamddenol braf bob Dydd Mawrth rhwng 11 a 12 yn nhafarn y Conway, Heol Conwy, Pontcanna.

Fe fydd Alwyn Humphreys yn dod am sgwrs fore Mawrth, Hydref 17.

Noson Gymdeithasol

Fe fydd Noson Gymdeithasol i Ddysgwyr yn cael ei gynnal yn y Cameo, Nos Iau olaf y mis –


Nos Iau, Hydref 26 am 7.30yh

Mae croeso i ddysgwyr o bob safon ymuno â ni i ymarfer eu Cymraeg dros beint neu wydriad o win. Cysylltwch ag Angharad am fwy o wybodaeth.

Llyfr Digwyddiadau

Mae Menter Caerdydd wedi cyhoeddi llyfryn lliwgar sy'n cynnig nifer helaeth o weithgareddau i blant ag oedolion drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mynnwch gopi. -
029 20565658.



Kariad yn perfformio ym ystod Diwrnod Teulu Menter Caerdydd yn y Mochyn Du ar Fedi'r 24ain



Cwis Cymraeg

Fe fydd cwis Cymraeg nesaf y Fenter yn cael ei gynnal Nos Sul, Hydref y 29ain yn y Mochyn Du am 8yh. Gareth Roberts fydd y cwis feistr. £1 y person.

Miri Meithrin

Dydd Iau, Tachwedd 2
Canolfan Channel View, Grangetown
1.30yp – 3yp
£1 y plentyn wrth y drws

Stori gyda Sali Mali Castell Gwynt a 'Soft Play'

Cyfle gwych i blant ifanc a'u rhieni gymdeithasu mewn awyrgylch saff a hwyliog. Mae'r sesiynau yn addas ar gyfer plant 0 - 4 mlwydd oed.

Os am fwy o wybodaeth neu i gofrestru cysylltwch â Rachael Evans
rachaelevans@mentercaerdydd.org

Sesiynau Yoga Meithrin

2 sesiwn yn unig o yoga yn arbennig ar gyfer plant 2½ - 4 oed yn unig.

Rhaid cofrestru am y 2 sesiwn. £ 6 y plentyn Dydd Gwener Hydref 20 a Dydd Gwener Tachwedd 24 rhwng 1.30yp – 2.30yp
Canolfan Maes y Coed, Gerddi Jubilee, Mynydd Bychan.

Am fwy o wybodaeth neu i gofrestru cysylltwch â Rachael Evans yn y swyddfa.
029 20 56 56 58

rachaelevans@mentercaerdydd.org

Cynlluniau Gofal Hanner Tymor yr Hydref.

Fe fydd Cynlluniau'n cael eu cynnal yn Ysgol Treganna, Ysgol y Berllan Deg ac Ysgol Melin Gruffydd dros Hanner Tymor yr Hydref. Y dyddiadau eleni yw Dydd Llun, Hydref y 30 - Dydd Gwener, Tachwedd 3. Fe fydd y ffurflenni cofrestru yn cael eu dosbarthu drwy'r ysgolion cynradd ac ar gael ar y wefan. Cysylltwch â Rachael Evans am fwy o fanylion. Cyntaf i'r felin....

Penwythnos Teulu i Langrannog Ebrill 13-15, 2007

Penwythnos penigamp i'r teulu cyfan. Cyfle i sgïo, merlota, nofio, trampolin, go-karts, beiciau modur, cwrs rhaffau, trip i'r traeth a llawer mwy..... Addas i rieni Cymraeg a Di-Gymraeg. Mae'r pris am y penwythnos yn cynnwys yr holl weithgareddau, llety, pob pryd bwyd a meithrinfa. Nid yw'r Fenter yn gyfrifol am gludo teuluoedd i Langrannog. Cysylltwch ag Angharad am fwy o fanylion.

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD



Noddir gan
Llywodraeth
Cynulliad Cymru

I'R CYHOEDDIAD HWN
www.bwrdd-yr-iaith.org

cwmni'r frân wen

Bitsh!
addasid John Ogwen
o'r nofel gan Eirwalwyn

Rhian Bluthie, Catrin Fychan,
Mabwyn John, Eilw Jones,
Canny Jones, Mawrwyn,
Jonathan Refud

Nos Fawrth 20 Hydref yn Theatr Glan yr Afon, Casnewydd
Tocynnau: 01633 656757

Dylan Jones Gwasanaeth adeiladu a dylunio gerddi.

Ffôn cartref : 20512567

Symudol : 07890134514



Newyddion o'r Eglwysi

Ebeneser, Heol Siarl

Priodas

Llongyfarchiadau i Lisa Mair Williams ar ei phriodas gyda Steven James, ar ddydd Sadwrn 2ail o Medi yn Ebeneser. Dymunwn bob bendith iddynt yn eu bywyd gyda'i gilydd.

Bedydd

Ar fore Sul, 10fed o Medi bedyddiwyd William Hugh, mab Wendy a Hugo Burke, Cross Inn, Llantrisant. Mae William yn wŷr i Cedric a Brenda Jones hefyd.

Gwasanaeth derbyn

Cafodd chwech o bobl ifanc yr eglwys eu derbyn yn gyflawn aelodau yn oedfa'r hwyr ar nos Sul, 10fed o Medi. Y chwech oedd Sian Burgess, Sian Manning, Bethan Semmens, Lisa Mair Williams, Tecwyn Dafydd a Sam Thomas. Llongyfarchiadau iddynt hefyd ar eu llwyddiant yn yr arholiadau safon uwch. Pob dymuniad da wrth iddynt ddechrau ar bennod newydd arall yn eu bywydau. Mae un am gymryd blwyddyn allan o fyd addysg a'r gweddill am fynd ymlaen i golegau yng Nghymru a Lloegr.

Carreg Filltir

Roedd 10fed o Medi hefyd yn garreg filltir arbennig i'n gweinidog. Nid yn unig yr oedd ef a Vikki ei wraig newydd ddathlu ugain mlynedd o fywyd priodasol, ond ar gyfer y penwythnos hwnnw ym 1986 y cafodd Alun ei ordeinio i'r weinidogaeth yn Ebeneser, Wrecsam. Cyflwynwyd torch o flodau iddynt i ddathlu'r achlysur ac ar y nos Lun canlynol yn y cwrdd gweddi cafodd Alun ei gyfarch gan fardd o blith ein haelodau, Eira Jones.

Parti'r ysgol Sul.

Ar fore Sul, 17eg o Fedi, yn dilyn yr ysgol Sul cafodd y plant barti i nodi dechrau tymor newydd yr ysgol Sul. Yn dilyn y bwyd cawsant gyfle i chwarae a mwynhau tra bu'r rhieni hwythau yn chwarae tenis bwrdd. Yn ôl y sôn aeth pethau'n reit gystadleuol gyda rhyw sôn am y posibilrwydd o drnament i weld pwy fyddai'n bencampwr, neu'r bencampwraig wrth gwrs! Amser a ddengys!!

Gwladfa Gymreig Brasil

Y Gymru Newydd (Nova Cambrensis) oedd testun darlith hynod ddiddorol gan Dr Dafydd Tudur yn y City Church, Windsor Place, ar nos Lun 18fed o Fedi. Cyflwynodd hanes ymdrech ychydig Gymry i sefydlu Gwladfa ym Brasil tua 1850. Byr hoedlog oedd yr ymdrech ac fe chwalwyd y weledigaeth yn fuan. Dyma bennod ddi-sôn amdani, ond eithriadol o gyffrous yn ein hanes.

Tabernacl, Yr Ais

Genedigaeth.

Llongyfarchiadau i Huw ac Amanda Thomas o Lundain ar enedigaeth Manon Mair, eu plentyn cyntaf, wyres i Mary a Graham Thomas.

Yn yr un modd, rhannwn lawenydd Hywel ac Alison Rogers wrth iddynt groesawu Efa Jinxuan i'w haelwyd. Mabwysiadwyd hi o dalaith Jiangxi yn Tseina ar Awst 14 eleni. Mae Osian yn edrych ymlaen at fod yn frawd mawr iddi a Mari yn falch o gofleidio ei hwyres newydd.

Priodas

Rhannwn lawenydd Mair Owen ar achlysur priodas ei hŵyr Gareth Power, mab Alwena a Chris, gyda'i gymar Lydia sy'n hanu'n enedigol o gyloch Caerfyrddin. Cynhaliwyd y briodas yn All Nations Centre, lle bydd Gareth yn astudio diwinyddiaeth am gyfnod.

Canlyniadau'r arholiadau.

Daeth llu o newyddion da i'n clyw dros y mis diwethaf gyda nifer o deuluoedd y Tabernacl yn dathlu llwyddiant eu pobl ifanc. Yn eu plith roedd y newydd fod Alys Rook wedi graddio mewn Ffiseg Mathemategol o Brifysgol Nottingham.

Darlith lwyddiannus.

Bu canmol mawr ar ddarlith un o ddiaconiaid y Tabernacl yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Llwyddodd rhai o blith aelodau'r eglwys fod yn bresennol i wrando ar Robert Nicholls yn dangos ei athrylith, ac yn ôl pob sôn, roedd y lle'n llawn.

Symud i'r Amerig i fyw.

Cyrhaeddodd Paul a Lowri Burleton yr Amerig yn ddiogel ac maent yn eu cartref newydd yn yr Unol Daleithiau. Gobeithio bydd Siôn a Rhys yn ymsefydlu yno'n fuan.

Paentio'r Festri.

Bydd pawb yn siŵr o sylwi ar y gwahaniaeth a wnaed yn y festri ar ôl i Rhys ab Owen, Marc Jon a Rhian, Rob Nicholls, Illtyd Lloyd a Graham Thomas ddangos eu sgiliau gyda brws paent.

Yr Ysgol Sul.

Dymunwn yn dda i Rhian Sennitt wrth iddi arwain gweithgareddau'r Ysgol Sul. Roedd y BBQ ar ôl oedfa fore Sul 10 Medi yn sbardun i'n teuluoedd ail-gydio yn y gweithgareddau hyn.

Cinio Pwnsh, Pate a Paflofa

Diolch i Mair Owen am y croeso i'w haelwyd i fwynhau'r danteithion hyd ar ddechrau mis Medi. Daeth nifer dda ynghyd ac roedd hi'n braf cael cwmni ei brawd y Parchg I.D.E.Thomas o UDA. Casglwyd £250 ar gyfer apel Clinic Caselin.

Salem, Treganna

Bedyddiadau

Llongyfarchiadau i Dafydd, Elen ac Owen, plant Huw a Siân Morris, a gafodd eu bedyddio yn ystod Medi. Hyfryd oedd gweld y teulu ynghyd yn Salem o'r gogledd, a dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Criced

Chwaraewyd gêm rhwng 2 dîm Salem i gloi'r tymor, wrth i ni fwynhau noson gymdeithasol hwyliog. Cafwyd llawer o hwywl wrth wlyio'r Corinthiaid yn chwarae yn erbyn y Philistiaid!

Cis

Daeth Cyfeillion Iau Salem ynghyd yn y Bengal Brasserie yn Nhreganna am gyri a chlonc, ac i gynllunio gweithgareddau a nosweithiau difyr ar gyfer y misoedd i ddod.

Clwb y Bobl Ifanc

Cafwyd nos Wener hwyliog wrth i'r clwb fwynhau ffilm a sgldos.

Clwb Llyfrau

Cyfarfu'r clwb yn ystod y mis i drafod *Saturday* gan Ian McEwan.

Colli May Blower

Newyddion hynod o drist i ni ganol Medi oedd clywed am farwolaeth May Blower, a fu'n aelod yn Salem ers 71 o flynyddoedd. Roedd hi'n gymeriad addfwyn, hyfryd, a sionc ei hysbryd, a bu'n mynychu Salem hyd yn ddiweddar iawn. Roedd pawb yn Salem yn meddwl gymaint ohoni oherwydd ei hawddgarwch a sicrwydd ei ffydd. Roedd llun ohoni yn *Y Dinesydd* ychydig yn ôl wrth iddi agor estyniad newydd Salem ym mis Mehefin. Rydym yn cydymdeimlo â'i theulu'n fawr ac yn meddwl amdanynt ar hyn o bryd.

Bethel, Rhiwbina

Yn ystod yr Oedfa Ddiolchgarwch, Medi 24ain, derbyniwyd rhoddion ar gyfer yr anghenus yn Rwmania, bwyd yn bennaf, ond hefyd derbyniwyd arian ar gyfer prynu Beiblau i blant Rwmania. Mi 'roedd aelodau'r Ysgol Sul wedi paratoi pcedi o losin ar gyfer y plant sy'n byw ar y strydoedd yn Rwmania a'r plant sydd yng ngofal yr eglwysi. Mae'n werth nodi fod y canfed llwyth o nwyddau o ardaloedd gogledd Caerdydd wedi cyrraedd Rwmania fis Ebrill a bydd wyth lori yn gadael Hydref 27ain.

Croesawyd gŵr a gwraig o'r Gaiman, Patagonia, Benito a Beatrice Jones, i'n plith yn ystod oedfaon fis Medi. Maen nhw'n aros gyda'u merch a'u mab yng nghyfraith, Miriam a Geraint Tilsley, ac wrth gwrs gyda'u hŵyr, Iestyn.

Eglwys y Crwys

Clwb Ieuencid

Yn ystod mis Medi ffurfiwyd clwb ieuencid newydd yn yr eglwys, mae'r clwb yn cyfarfod ar nos Wener ac mae croeso i bawb tu allan a thu mewn i'r eglwys.

Priodasau

Yn ystod misoedd yr haf a'r hydref priodwyd nifer o aelodau ifanc yr eglwys. Llongyfarchiadau i Mererid Roberts, Ystum Taf ar ei phriodas ag Athanasios Velios o wlad Groeg, Lisa Edwards a Ross Poulter o Keynsham, Bryste, ag Alun Tudwal Jones a Carina Steer o Lundain.

Bedydd

Fore Sul, medi 17 bedyddiwyd Megan Bill gan ein gweinidog, y parch Glyn Tudwal Jones, o flaen cynulleidfa niferus. Mae Megan yn ferch i Rhiannon a Julian Bill, yn chwaer fach i Carys ac yn wyres i Dr Ann a Gareth Lloyd Jones.

Marwolaeth

Yn ddiweddar clwyd o'n plith Dorothy Williams roedd Dorothy yn hanu o Griecieth ac wedi treulio blynyddoedd mewn swyddi gyda'r BBC. Cydymdeimlir â'i theulu a'i ffrindiau.

Ydych chi'n chwilio am swydd rhan amser/llawn amser?

Hoffech chi weithio gyda phlant bach?

Mae **Cylch Meithrin Treganna** yn chwilio am staff newydd ar frys i weithio yn y cylch/meithrin gyda phlant rhwng 2 a 4 oed.

Does dim angen cymwysterau – gallwch gyflawni'r cysiau angenrheidiol wrth weithio yn y cylch.

Efallai eich bod awydd newid o'ch swydd bresennol, neu newydd adael yr ysgol... Am sgwrs a mwy o wybodaeth ffoniwch Thomasina Powell 029 20561053.

Meleri Jones


**Dylunwraig
Gwniadyddes
Teilwres**

**Ymgymryd a phob math
o wno – llenni i ddillad.**

**Ffôn:
07837 990867**

serameleri@yahoo.co.uk

CROESAIR Rhif 68 gan Rhian Williams



**Atebion i:
22, Heol Cae
Rhys,
Rhiwbina,
Caerdydd.
CF14 6AN
i gyrraedd
erbyn
25 Hydref
2006.**

Ar Draws

- A fo'r lloi yn gwerthu dramor? (7)
- Diffaith yw bod Nia ym mreichiau Alun bach (5)
- Creu helbul wrth fyw go wyllt (5)
- Anifail yn cywasgu ffwlbrî'r mart (7)
- 'Yr ___ a'th geidw rhag pob drwg
A rhag pob cilwg anfad.' (E.P) (3)
- 'Hollalluog! Nodda ni
Trech ___ ___ dyn wyt Ti'(E.W.)
(2,7)
- Byd gwirod yw troi'n amau (9)
- Mae dechrau sugno uchelwydd rwber yn gadael blas cas (3)
- Ci + Oen + Ci yn ymuno i ganu (7)
- Pêr yw'r llwy ddigalon yn y geg (5)
- 'Blin yw ___ creigiau geirwon,
Blina' gelltydd yw gofalon.' (L.M.) (5)
- A yw'n deg i wyth grwydro i le y crefftwr? (7)

I Lawr

- Crynhoad o'r twba i godi dail (8)
- 'Canys yr ydwyf yn dywedyd i chwi, nad ___ o ffrwyth y winwydden, hyd oni ddêl teyrnas Dduw' (Luc) (4)
- Marc yn dychwelyd ryw adnodd (8)
- Mae fforc go gam yn gwneud un yn dew (6)
- 'Un funud fach cyn elo'r ___ i'w orwel
Un funud fwyn cyn delo'r hwyr i'r hyn.' (W.W.) (4)
- Maith saethu o gwmpas y galarus (8)
- Darn yn codi twlc (4)
- A raid neidio i'w anafu? (8)
- 'Tangnefedd Duw, fel ___
O orsedd nef yn llifo.' (R.J.) (4,4)
- 'Fy more fu ym Merwyn
Ofer a gwag ___ ___ '(R.E.) (4,4)
- Ymffrostiwr, un sy'n hoffi i'w fywyd yn llyncu'r cyntaf o'r reis (6)
- Dacw ffordd arall i arbed (4)
- Diweddu drwy ddefnyddio allwedd (4)
- Trechu Seth wrth iddo golli i ben mewn tyfa (4)

ANGEN

**Rhywun i edrych ar ôl
dwy ferch 6 a 4 oed
yn ardal
Caerdydd / Bro Morgannwg
bedair noson yr wythnos
ar ôl ysgol.**

**Telerau da.
Y gallu i yrru yn hanfodol.**

**Cysylltwch ag Angharad
07783 200 150.**

Atebion Croesair Rhif 67

Ar draws: 1 Tranc. 4 Yn dianc. 8 Cymylog. 9 Golchi. 10 Owns. 11 Arch. 12 Cnwd. 15 Taclus. 16 Llonder. 19 Ongo. 21 Llys. 22 Saig. 26 I'th enw. 27 Gwennol. 28 Diymwad. 29 Digon.

I Lawr: 1 Tycio. 2 Almanac. 3 Celu. 4 Ysgaru. 5 Dagr. 6 Afllan. 7 Crindir. 13 Llun. 14 Dod. 15 Trosiad. 17 Draenog. 18 cysgod. 20 gwely. 23 gwlan. 24 Gwiw. 25 Seld. Derbyniwyd 21 ymgais ac 16 ohonynt yn hollol gywir. Danfonir y tocyn llyfr y tro hwn i Idwal Hughes, 23 St Cadoc Rd. Mynydd Bychan. Cafwyd yr atebion cywir eraill gan Mel Dunsford, Gwilym Edwrads, Megan Griffiths, Gaenor Hall, Heledd Hall, Gwenda Hopkins, H.O.Hughes, Maurin Hurley, Eira Jones, Marian Lake, mair Morgan, Dilys Pritchard-Jones, Buddug Roberts, Eleri Sheppard a James Wiegold.

YSGOL PLASMAWR

Llwyddiannau Eisteddfod Genedlaethol Abertawe

Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion canlynol a wnaeth yn arbennig o dda yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst:

- Rhidian Marc a ddaeth yn 1af yn yr unawd bechgyn 16-19 oed ac yn 2il yn yr unawd allan o sioe gerdd neu ffilm 16-19 oed.
- Jâms Powys a ddaeth yn 3ydd yn y llefaru unigol 12-16oed.
- Anya Gwynfryn a ddaeth yn 3ydd yn y perfformiad dramatig.
- Seth a Dafydd Griffiths, Carwyn Huw a Steffan Thomas a ddaeth yn 1af yn y gystadleuaeth Dechnoleg a Gwyddoniaeth. Aeth y pedwar ati i greu pont allan o sbageti a lwyddodd i ddal 73 o gwpanau tywod a 2 gwpan o gerrig.



Gweithdy Celf

Yn ystod tymor yr haf cafodd disgyblion arbennig o flwyddyn 9 gyfle i weithio gydag arlunydd adnabyddus o Ogledd Cymru, Iwan Lewis. Am wythnos aethant ati i beintio cynfasau, yr ail beintiad yn dangos darluniau o chwedl Branwen Y Mabinogion. Roedd modd iddynt fynd ag un adref a chafodd y disgyblion hyn wahoddiad i arddangos eu gwaith yn Oriel Washington, Penarth. Mynychodd nifer o bobl yr arddangosfa ar Fehefin 21 - 25 a chanmol gwaith pob un. Y disgyblion oedd Emma Hodges, Ieuan Castle, Cherie Green, Ellis Thomas, Shanice Flowers a Rhys Lloyd. Gobeithio y byddent yn parhau i beintio ac ennill yn yr Eisteddfod Genedlaethol fel y gwnaeth eu mentor, Iwan Jones, y flwyddyn hon.

Llongyfarchiadau

- Llongyfarchiadau mawr i Gethin Davies a David Evans am gael arddangos eu gwaith cwrs Technoleg Safon Uwch fen rhan o oreuon Cymru yng ngwobr 'Arloesi Technoleg 2006'. Enillodd bwrdd coffi derw a gwyr Gethin y wobwr Genedlaethol am greadigrwydd ynghyd â gwobr ariannol o £125. Mae Gethin yn gyn-ddisgybl o Ysgol Gyfun Plasmawr ac ar fin mynd i Brifysgol Rhydychen i astudio pensaerniaeth. Pob hwy! i ti Gethin!
- Enwyd Haf Davies o flwyddyn 8, o dan ei ffug enw Delano, fel un o'r goreuon yng Nghystadleuaeth barddoni Tlws Barddas eleni. Cyfansoddodd cerdd o'r enw 'Bws hwy'r nos, Miami Beach'. Llwyddodd i gyfleu ei phroffesiadau yn effeithiol iawn yn y gerdd hon.



Menter UCAN Perform

Mae'r cwmni UCAN Perform o Gaerdydd a sefydlwyd gan yr actor Bernard Latham a'i wraig Jane Awst diwethaf wedi bod yn gweithio gyda disgyblion sydd â nam golwg ac eraill yn yr ysgol. Disgyblion sydd wedi bod ynghlwm â'r fenter yw Carys Huws a Ffion Lewis o fl 11, Megan John, Betsan Thomas ac Alex Wicks o fl10, Mared Jarman, Alys Wall o fl 8 ac Angharad Butler-Rees o fl 7. Gyda chymorth arian loteri y mae'r disgyblion wedi cymryd rhan mewn cyfres o weithdai drama a chafwyd perfformiad arbennig ar ddiwedd y cwrs. Dysgodd y disgyblion hyn lawer am actio a drama ynghyd â'r ochr technegol megis goleuo a sain. Dywed Alys Wall, "Roedd yn brofiad anhygoel. Rwy'n caru drama gan ei fod yn fy helpu i fynegi fy hun."

TGAU, Safon Uwch a'r Bac Cymreig

Llongyfarchiadau mawr i'r holl fyfyrwyr a wnaeth mor ardderchog yn arholiadau'r haf. Am y tro cyntaf derbyniodd 19 o fyfyrwyr Plasmawr gymhwyster y Fagloriaeth Gymreig a hynny ar ôl cwblhau cwrs addysg a gwerthfawr oedd, yn cynnwys modiwlau ar Gymru gyfoes a'i lle o fewn Ewrop, yn ogystal â gwaith gwirfoddol, sgiliau allweddol ac iaith Fodern Ewropeaidd. Cafodd y cymhwyster ei dderbyn gan sefydliadau Addysg Uwch ar draws Prydain.

Cwrs Anwytho y chweched dosbarth

Cynhaliwyd cwrs anwytho chweched dosbarth Plasmawr unwaith eto ym Mhrifysgol Morgannwg lle cafwyd sesiynau diddorol a gwerthfawr ar sgiliau astudio, cyflwyno'r fagloriaeth a system derbyn colegau a phrifysgol. Ein siaradwr gwadd eleni oedd yr Athro Gareth Williams, a draddododd anerchiad ar bwysigrwydd hanes, yn arbennig 1905 yn nhwf a datblygiad y Genedl Gymreig. Lanswyd hefyd Apêl Elusen y chweched am y flwyddyn, sef casglu arian i gynorthwyo bechgyn filwyr yn Uganda a hynny drwy Cymorth Cristnogol. Cafwyd cyflwyniad hynod bwyrus gan Aled Pickard sydd wedi ymweld â Uganda yn sôn am dros 20 mlynedd o ryfela ac effeithiau ymladd ar bobl - yn arbennig plant a gafodd eu cipio a'u gorfodi i gyflawni erchyllterau dros y gwrthryfelwyr o fewn y wlad. Bydd y chweched yn mynd ati i godi arian i gynorthwyo dioddefwyr i ail-afael yn eu bywydau nawr y mae gobaith fod heddwch yn dychwelyd i Uganda.

Fe gafwyd cyflwyniadau hefyd gan 4 aelod o'r Chweched a aeth gyda'r Urdd i gynorthwyo mewn cartref i blant amddifad yng Ngwlad Pwyl a gan Heulwen Rees, cyn-ddisgybl yr ysgol a dreuliodd yr haf yn gweithio mewn ysbty yn Ne India.

Taith Romeo and Juliet

Ar Ddydd Iau gwlyb cyntaf o fis Medi aeth disgyblion blwyddyn 9 ar wibdaith i Stratford. Y bwriad? Amsugno hanes a diwylliant y dref a'i theatr fawreddog - yn ôl ein hathrawon beth bynnag.

Braf oedd gweld Romeo a Juliet gymharol ifanc yn syrthio mewn cariad (a'r merched i gyd yn syrthio gyda Juliet!) Roedd digon o ddrama a therfysg i ymddiddori'r bechgyn hefyd, a'r cwmni'n portreadu'r brwydrau cyson rhwng y ddau deulu drwy rym dawnsfeydd swnllyd, bygythiol. Roedd hon yn berfformiad hollol gredadwy, sensitif a digrif, ac fe gollwyd deigrin neu ddwy wrth i ddiweddgllo anorfod Romeo a Juliet ddatblygu o'n blaenau.

Cynhyrchiad ysgol

Cynhyrchiad yr ysgol eleni yw addasiad o *Breuddwyd Noswyl Ifan*, sef cyfieithiad o *A Midsummer Night's Dream* gan Shakespeare. Mae'r ysgol yn cymryd seibiant o'r sioeau cerdd ac yn perfformio drama am y tro cyntaf. Dyddiad y perfformiadau yw Tachwedd 15eg a 16eg, yn neuadd yr ysgol. Ar gyfer archebu tocynnau ffoniwch Mrs Siân Williams ar 029 20405499.

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Anwyl Olygydd,

Ysgrifennaf i ofyn am gymorth darllenwyr Y Dinesydd i gefnogi menter o fewn yr ysgol dros fisoedd y gaeaf. Ein gobaith yw datblygu ac ymestyn ein Eisteddfod ysgol drwy gynnwys gwaith cartref estynedig i ddisgyblion yr ysgol a fydd yn eu hymrwymo i brosiectau dros gyfnod eithaf hir. Ein bwriad yw lansio nifer o gystadlaethau agored mewn gwahanol feysydd: llenyddiaeth, gwyddoniaeth, celf, technoleg a'r dyniaethau ar draws yr ysgol gan obeithio tanio diddordeb disgyblion mewn gwaith unigol ac estynedig mewn thema o'u dewis.

Yn naturiol mae angen abwyd ar sawl un i gystadlu - a fyddai gan ddarllenwyr unigol o'r Dinesydd neu rai o gymdeithasau amrywiol y ddinas ddiddordeb mewn noddi rhai o'r cystadlaethau rhain drwy gynnwys gwobrau bychain (ariannol neu arall) i annog y disgyblion yn eu gwaith.

Os hoffech gyfrannu neu fwy o wybodaeth am y cynllun, cysylltwch â mi yn yr ysgol, a diolch rhag blaen am eich haelioni!

Yn gywir,

Matthew H. T. Evans

029 20573939 me@plasmawr.cardiff.sch.uk

Hysbysebwrch yn

y dinesydd

Cylchrediad eang yn y
ddinas a'r cylch
Ffôn: 029 20565658

Calendr y Dinesydd

Iau, 5 Hydref

Taith Beirdd Ifainc. Crap ar Farddoni, yng nghwmni Eurig Salisbury, Catrin Dafydd, Aneirin Karadog, Hywel Griffiths ac Iwan Rhys, yng Ngwesty'r Riverbank, Grangetown, Caerdydd. Drysau'n agor am 7.30pm. Mynediad yn £4.

Gwener, 6 Hydref

Cymrodorion Caerdydd. Noson y Llywydd: Dr R. Alun Evans, yn festri Capel Minny Street, Cathays, am 7.15pm. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Gwener, 6 Hydref

Cylch Cadwgan. Yr Athro Geraint H. Jenkins (Aberystwyth) yn siarad ar y testun 'Y Dewin o Drefflemin', yn Neuadd y Pentref, Efail Isaf am 8.00pm. Cydnabyddir cefnogaeth yr Academi Gymreig.

Mercher, 11 Hydref – Iau, 12 Hydref

Theatr Genedlaethol Cymru yn perfformio cyfieithiad Gwyn Thomas o 'Diweddgan' (Samuel Beckett) yn Theatr Sherman am 7.30pm. Tocynnau: 029-2064-6900.

Iau, 12 Hydref

Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Oedfa Diolchgarwch: 'Bwyd a Bywyd Beunyddiol', yng Nghapel Salem, Treganna, am 7.30pm.

Gwener, 13 Hydref

Noson o adloniant gyda Iona Jones + disgyblion yng Nghlwb Golff Radur. Pwyllgor Apêl Radur a Threforgan Eisteddfod 2008.

Sadwrn, 14 Hydref

Gwahoddir pawb i gyfarfod yn Neuadd Ysgol Glantaf am 10.30am. i ddechrau ar y gwaith o sefydlu'r pwyllgorau pwnc, sef Alawon Gwerin, Celfyddydau Gweledol, Cerdd Dant, Cerdd, Dawns, Drama, Dysgwyr, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Llefaru, a Llenyddiaeth, ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a'r Cyffiniau, 2008.

Sadwrn, 14 Hydref

Bore coffi i ddysgwyr yn yr Eglwys Efynglaidd Gymraeg, Rhymney St, Cathays, rhwng 10.30 a 12.00. Yn cynnwys sgwrs gan Dr E. Wyn James am Thomas Jones, Dinbych a'i emyn, 'Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw'. Croeso cynnes i bawb.

Llun, 16 Hydref

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Noson yng nghwmni Richard Thomas ('Dic y Fet'), yn festri Bethany, Rhiwbina am 7.30pm.

Llun, 16 Hydref

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. 'Teithiau yng Nghymru a bywydeg: tynged metalau tocsig mewn celloedd byw' gan Andrew John Morgan (Prifysgol Caerdydd), yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

Llun, 16 Hydref

Swper a Sgwrs: Pryd Pedwar Cwrs yn Ristorante I Contadini, Birchgrove, 7.30 am 8.00. Tocyn £15. Pwyllgor Apêl Y Mynydd Bychan, Gabalfa, Birchgrove a Pharc y Rhath

Mawrth, 17 Hydref

Cymdeithas Cymrodorion y Barri. Noson yng ngofal Gerallt Nash, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 pm.

Mawrth, 17 Hydref

Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. 'Fy milltir sgwâr' gyda Jean Salisbury, Rob Jones a Gwilym Sion. Cadeirydd: John Albert Evans. Yn festri Minny Street, Cathays, am 7.30pm.

Gwener, 20 Hydref

Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan y Prifardd Eigr Lewis Roberts ar y testun 'Fflam: Cerddi Coron Abertawe', yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm. Noddir gan yr Academi.

Sadwrn, 21 Hydref

Cinio Mawreddog yn y Gyfnewidfa Lo ym Mae Caerdydd i godi arian ar gyfer cronfa Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a'r Cylch 2008. Am fanylion pellach, cysylltwch â Swyddfa'r Eisteddfod, 40 Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd. CF14 5WU. Ffôn: 07831-430-594.

Iau, 26 Hydref

Cwis yn Y Mochyn Du am 8yh. Pwyllgor Apêl Treganna, Parc Fictoria a Phontcanna

Iau, 26 Hydref

'Gŵyl Ddiwylliannau Moslemaidd' – un o gyfres o deithiau tywys Cymraeg o gwmpas orielau'r Amgueddfa Genedlaethol ym Mharc Cathays. Yn ystod yr awr ginio, yn dechrau am 1.05pm. Bydd y daith yn addas i ddysgwyr Cymraeg o bob safon. Manylion pellach: 029-2057-3171.

Sadwrn, 28 Hydref

Côr Philharmonig Caerdydd. Noson Operatig yn Neuadd Gyngerdd y Brifysgol, Heol Corbett, am 7.30pm. Tocynnau: £7 (wrth y drws, neu ffoniwch 029-2062-6779).

Mawrth, 31 Hydref

Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Sgwrs gan Dr Richard Elfyn Jones ar y testun 'Y Cyfansoddwr yn y Ganrif Newydd', yn festri Minny Street, Cathays, am 7.30pm.

Mercher, 1 Tachwedd

Merched y Wawr, Cangen Bro Radur. 'Llestri Cymreig.' Sgwrs gan Don Treharne (Pontarddulais), yn festri Capel y Methodistiaid Saesneg, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.

Iau, 2 Tachwedd

Noson cwis dwyieithog yn Nhafarn y 'Discovery', Cyncoed. Pris £5 (yn cynnwys tocyn raffl). Tocynnau: Eluned Press (20 491 649) Trefnwyd gan Bwyllgor Apêl Penylan, Cyncoed a Llanedyrn

Gwener, 3 Tachwedd

Gig 'Steddfod yn y Ddinas' gyda Geraint Jarman a'r Cyganeddwy'r yn y Clwb Trydan, Pontcanna. Pris £10.

Tocynnau Mary Siop y Felin (02920 692 999) a Menter Caerdydd (02920 565 658)

Trefnwyd gan : Pwyllgor Apêl Yr Eglwys Newydd ac Ystum Taf

Gwener, 3 Tachwedd

Cymrodorion Caerdydd yn festri Capel Minny Street, Cathays, am 7.15pm.

Mercher, 8 Tachwedd – Sadwrn, 11 Tachwedd

Sgript Cymru yn perfformio 'Hen Bobl Mewn Ceir' (Meic Povey) yn Theatr Sherman am 8.00pm. Tocynnau: 029-2064-6900.

Iau, 9 Tachwedd

Cylch Cinio Merched Caerdydd. Noson yng nghwmni Jim Lloyd, yng Nghlwb Golff Radur am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb. Manylion pellach: Ann Rees (029-2048-2922).

Gwener, 10 Tachwedd

Cinio Carnhuanawc yng Ngwesty Churchills, am 7.30pm. Siaradwraig wadd: Beti George. Tocynnau: £15. Cysyllter â Nans Couch (029-2075-3625) neu Catherine Jobbins (029-2062-3275) erbyn 3 Tachwedd 2006.

Sadwrn, 11 Tachwedd

Bore coffi i ddysgwyr yn yr Eglwys Efynglaidd Gymraeg, Rhymney St, Cathays, rhwng 10.30 a 12.00. Yn cynnwys sgwrs gan Elisabeth Williams am Dr Martyn Lloyd-Jones. Croeso cynnes i bawb.

Llun, 13 Tachwedd

Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yng Ngwesty Churchills am 7.30pm. Siaradwr gwadd: Emyr Daniel. Manylion pellach gan Tony Couch (ffôn : 029-2075-3625; e b o s t : ajcouch@yahoo.co.uk).

Mawrth, 14 Tachwedd

Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. 'Blyffio.' Elinor Patchell, Hannah Roberts a Non Roberts yn herio Andrew Bartholomew, Zac Davies ac R. Alun Evans i ddyfalu'r gwir. Hywel Gwynfryn sy'n cadw trefn a'r Athro Glyn E. Jones yn gosod y tasgau. Yn festri Minny Street, Cathays, am 7.30pm.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; JamesEW@caerdydd.ac.uk).

Mae Calendr y Dinesydd hefyd ar wefan Menter Caerdydd: www.echlysur.com

TRYDANWR

gyda dros 20 mlynedd
o brofiad

Wedi'i gofrestru gyda NICEIC
i arolygu a gosod
systemau trydan
a chawodydd yn unol â
Rheoliadau Adeiladu Adran "P"

Prisiau Rhesymol

Ffoniwch
Caerwyn Davies

(T/A Davies Electrical)
ar 029 20868208
neu 07967 558664

Tŷ Gwyliau ym Majorca i'w rhentio

Wedi ei leoli mewn pentref
tawel ar arfordir y Gogledd

Yn cysgu 6
Pwll nofio mawr, cwrt tennis,
gardd a lle i barcio

Ffoniwch
Andrew ar (07710) 038309

Urdd – mae 'na obaith!



Beth sy'n dod i'ch meddyliau pan eich bod yn clywed enw'r Urdd? Mr Urdd? Defnydd erchyll o eiriau Saesneg drwy geisio bod yn 'cwl'? Gweithgareddau 'naff' llwyr? Nid oedd gen i farn positif o'r Urdd tan i mi fynychu'r daith ddyngarol i Wlad Pwyl ym mis Awst. Trwy gydol yr wythnos, fe ddaeth y grŵp o wahanol ysgolion yn ffrindiau gwirioneddol dda, a hyn i gyd drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn amlwg, y prif foddhad oedd cwblhau'r gwaith ddyngarol ac ymateb y plant ond yr hyn oedd hefyd yn fy mhlesio oedd y ffaith ein bod wedi cwblhau popeth yn y Gymraeg.

Yn dilyn misoedd o waith i godi arian, fe aeth grŵp o 14 o fyfyrwr chweched dosbarth Plasmawr, Ystalyfera, Gwynllyw, Rhydywaun ac Ysgol y Fro gyda'r Urdd i Wlad Pwyl ar gyfer prosiect dyngarol o weithio mewn cartrefi i blant amddifad. Hedfanom i Berlin ac fe gyrhaeddod ni Legnica am hanner nos. Roedd gwledd o gaws a chig yn aros amdanom ni yn y cartref. Bu'r domen o fwyd a chroeso cynnes y brifathrawes yn arwydd o'r hyn oedd o'n blaenau.

Dros y chwe blynedd diwethaf, roedd grwpiau'r Urdd wedi ymweld â'r cartref hon dair gwaith yn barod felly dim ond am ddwy noson arhoson ni. Yn ystod yr amser yma, symudon ddoedrefn (trwm!) newydd i mewn ac ail-drefnu'r ystafelloedd gwely. Er hyn, cafodd y rhan fwyaf o'r amser ei dreulio'n chwarae gemau efo'r plant ac yn eu cyflwyno i ddawns Mr Urdd.

Dechreuodd y gwaith go iawn unwaith i ni gyrraedd yr ail gartref. Ein cyfrifoldeb oedd adnewyddu ystafell gwely i bump o ferched ac, unwaith i ni weld yr ystafell llwm, roedden ni a syniad da o'r gwaith caled oedd o'n blaenau. Yn dilyn deuddydd o beintio ac addurno roedden ni wedi llwyddo i newid hen focs tywyll, digalon mewn i ystafell liwgar, fywiog. Roedd teimlad o falchder a boddhad wrth i ni gymryd lluniau o'n gwaith terfynol. Ymhellach, roedd ymateb dagreulol yr athrawon yn llethol ac yn rhoi'r holl daith mewn cyd-destun. Ers i mi weld ymatebion y plant wrth iddynt dderbyn yr holl adnoddau newydd rwyf wedi newid. Nid yn unig wrth werthfawrogi mwy o bethau'n amlach ond, yn syml, gosod blaenoriaethau bywyd yn fwy clir o'm blaen.

Yn ogystal â'r ystafell a'r adnoddau newydd, yr agwedd fwyaf boddhaol oedd gwneud ffrindiau newydd. Roedd Martin a Pavo, y dewiniaid gwyddbwyll, yn ddau gymeriad mae'r grŵp yn edrych ymlaen at groesawu pan fydd plant y ddau gartref yn dod i Langrannog haf nesaf. Daw Pavo o deulu lle nad yw ei rieni'n gallu ei warchod felly mae'n treulio'r rhan helaeth o'i amser yn y cartref. Er hyn, mae'n bencampwr gwyddbwyll genedlaethol a ges i'r pler o golli iddo!

I ddod â'r daith i ben, aethom am drip 'diwylliedig' i Prág ac fe aethom ymlaen i Teplice i weld y gêm bêl-droed rhwng Cymru a'r Weriniaeth Tsiec.

Roedd Gwlad Pwyl wedi gadael argraff aruthrol arnom ni i gyd. Yn bersonol, roedd yna deimlad annifyr o golled pan gyrhaeddais i yn ôl yng Nghymru. Yr unig awydd oedd gen i oedd mynd yn ôl i Wlad Pwyl ac i ail-ddechrau'r holl daith. Mae'n wir i ddweud bod yr holl brofiad wedi bod yn fythgofiadwy i bob un ohonom ni. Hoffwn ddiolch o galon i bawb oedd wedi ein noddi ac wedi gwneud y daith yn bosib. Gan Dafydd Pritchard Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Y grŵp: Urdd: Catrin, James, Rhiannon. Plasmawr: Dafydd Pritchard, Eleri Middleton, Steffan Jones, Rowena Barnes. Gwynllyw: Llinos Burnhill, Rachael Edwards, Susan Turner. Ystalyfera: Dafydd ap Emyr, James Hoyles, Catrin Thomas. Rhydywaun: Elinor Davies, Carys Davies. Ysgol y Fro: Bethan Rowe, Laura Best

COR MERCHED CANNA

YMARFER: bob NOS LUN, yn festri Capel Salem, Treganna – 7.00p.m.

Braf iawn oedd gweld mwy eto o aelodau newydd wedi ymuno â'r criw hwyliog yn yr ymarfer cyntaf ar ôl y gwyliau. Grêt eich gweld ferched, ac wrth gwrs mae yna groeso mawr iawn i unrhyw un i ddod draw i ymuno yn hwyl y canu a'r cymdeithas bob nos Lun yn Salem. Mae'r côr wedi tyfu a thyfu yn ystod y blynyddoedd a nawr mae gennym tua 48 ar ein llyfrau. 'Rydym yn mwynhau cyngherdda a chystadlu yn bennaf, ac wrth gwrs mae ambell noson allan, a thraith dramor yn apelio'n fawr hefyd!

Mae calendr y côr yn prysur lenwi ar gyfer y flwyddyn nesaf yma. 'Rydym wrthi yn awr yn dysgu mwy a mwy o repertoire ffres a newydd, ac fe fydd Eglwys Gadeiriol Llandaf, Cymdeithas Gymraeg Birmingham, a Chyngerrd Eisteddfod Sir Gâr yn ein croesawu cyn bo hir, ac mae taith dramor i Wyl Gerddorol yn Verona yn ystod Pasg 2007 eisoes wedi ei threfnu, ac mae pawb yn edrych ymlaen yn fawr!

Cofiwch mae yna groeso cynnes i fwy o aelodau newydd eto [cysylltwch â Delyth Medi ar 02920 254469] a NA, does dim angen clyweliad!

DINAS DDIWYLLIANNOL CAERDYDD YN ENNILL PLEIDLEISIAU RHYNGWLADOL

Ar Ddydd Mawrth 3ydd Hydref, cyhoeddwyd y bydd Cynhadledd Cymdeithas Ryngwladol Canolfannau Hysbysrwydd Cerdd yn dod i Gaerdydd, Cymru yn y flwyddyn 2008.

Lansiwyd y digwyddiad mewn derbyniad min nos a gynhaliwyd yn y Senedd, gyda Chanolfan Hysbysrwydd Cerddoriaeth Cymru yn estyn croeso ac Alun Pugh, Gweinidog y Cynulliad dros Ddiwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chwaraeon yn noddi. Daw Cynhadledd IAMIC â chynrychiolwyr diwyllianol i Gymru o 38 o wahanol wledydd o bob cwr o'r byd ac fe'i yng Nghaerdydd o'r 10fed i'r 16eg Medi 2008.



Ffenestri, drysau a tai gwydr o ansawdd

- Gwarant deg mlynedd heb ddadl
- Dim blaendal
- Dim costau cudd
- Dyfynbris am ddim heb ymrwymiad

Fel gwelwyd ar y teledu **tv** S4C-

Tai haul o £6,600 gyda treth ar werth yn ychwanegol

Dewch i ddarganfod sut gallwch dderbyn par o docynnau i gyngerdd poblogaidd yn Canolfan Mileniwm Cymru ym Mae Caerdydd 6ed - 8fed o Rhagfyr 2006

Dewch draw i'n hystafelloedd arddangos yn Lon y Ffair, Caerfyrddin, neu 166 Heol Richmond, y Rhath, Caerdydd. Am fwy o wybodaeth, rhowch glic ar ein gwefan

www.nolanupvc.co.uk
e-bost: info@nolanupvc.co.uk
neu rhowch alwad i ni ar:
0845 600 90 80



FFENESTRI DRYSAU TAI HAUL